



ARDDANGOSFA GELF

Mae'r disgyblion yn gyffrous iawn i'ch gwahodd i arddangosfa o'u gwaith celf yn neuadd yr ysgol ar:

DDYDD MERCHER 22ain o DACHWEDD

Mae'r disgyblion wrthi'n brysur yn creu darnau celf godidog, ac rydym yn sicr y byddwch wrth eich boddau pan welwch eu lluniau hyfryd. Mae'r achlysur arbennig hwn yn un o uchafbwyntiau'r flwyddyn ysgol ac rydym ni'n gwybod y bydd y plant wrth eu boddau yn dangos eu gwaith. Bydd y lluniau yn cael eu fframio a'u harddangos yn broffesiynol, er mwyn i chi gerdded o gwmpas ein horiel gelf.

Bydd gwaith celf eich plentyn ar gael i'w brynu a bydd canran o'r elw yn mynd tuag at yr ysgol. Mae'n gyfle i chi fynd adre â chofnod gwerthfawr o waith eich plentyn neu efallai y gallech ei roi fel anrheg i aelod o'r teulu. Pris y lluniau wedi'u fframio fydd £10.00 yr un.

Nid oes rhaid prynu'r lluniau, ond os ydych chi'n bwriadu dod am dro, bydd yr arddangosfa rhwng 3:00 yh a 5:00yh ar ddydd Mercher yr 22ain o Dachwedd. Ni fydd yr arddangosfa yn achlysur blynyddol, felly dewch â'ch teulu a'ch ffrindiau.

Yr eiddoch yn gywir,

Miss W. Williams

Os na allwch fynychu'r arddangosfa...

Os na allwch fynychu'r arddangosfa hwn ond hoffech archebu gwaith celf eich plentyn wedi'i fframio, cwblhewch a dychwelwch y slip i'r ysgol, gan gynnwys tâl o £10.00 am y llun. (Cyn yr arddangosfa os gwelwch yn dda.)

Arian neu siec yn daladwy i :Ysgol Gymraeg Cwmbrân. Diolch yn fawr.

Enw plentyn: _____ Dosbarth: _____

Tâl amgaeedig: _____ Eich enw: _____